
# Yr Ynys Fach Werdd

Roderick Hunt   Alex Brychta

Pïod

DRAKE






Aeth Mr Elis â'i ddosbarth i ffwrdd am yr wythnos. Aethon nhw i dŷ mawr o'r enw Plas y Don. Aeth Mrs Jones hefyd.

Roedd y plant yn llawn cyffro. Roedd Plas y Don yn agos at lan y môr ac roedd llawer o bethau diddorol i'w gwneud.




Dadlwythodd pawb y bws. "Mae rhai o'r bagiau a'r cesys yma'n drwm," meddai Mr Elis. "Dim ond am wythnos rydan ni yma."

Cafodd Mrs Jones hyd i frws dannedd. "Brws dannedd pwy ydi hwn?" holodd.

"O diar!" meddai Cad. "Fi biau o, dwi'n meddwl."






Aeth Mr Elis â'r bechgyn i'w hystafell.

"Dyma ble byddwch chi'n cysgu," meddai.

"Rydw i eisio'r gwely uchaf," gwaeddodd Dids.

"Na, rydw i eisio'r gwely uchaf," gwaeddodd Wilff.

Taflodd Mr Elis ddarn arian. "Tu blaen neu du chwith?" gofynnodd.



Rhoddodd Mr Elis fap i'r plant. Yna aeth â nhw am dro hir. Ymhen tipyn, arhoson nhw am sbel fach.

Edrychodd y plant ar eu mapiau. Dangosodd Mr Elis y llefydd oedd yn y golwg.

"Mae dy fap di â'i ben i lawr, Cad," meddai Wilff.



Pwyntiodd Nadim at ynys fechan yn y môr.

"Be ydi enw'r ynys yna?" gofynnodd.

"Edrychwch ar eich mapiau," meddai Mr Elis. "Pwy sy'n gwybod be ydi enw'r ynys?"

Roedd Dids ac Anneena yn gwybod. "Yr Ynys Fach Werdd ydi ei henw hi," medden nhw.





Roedd pawb ar lwgu wedi cerdded mor bell. Pan gyrhaeddon nhw'n ôl roedd hi'n amser swper.

Roedd y plant yn gweini'r bwyd ac yn helpu i olchi'r llestri.


"Mae'n gas gen i olchi'r llestri gartre," meddai Wilff, "ond mae golchi'r llestri yn hwyl yma."





Y noson honno roedd y plant wedi blino ond fedren nhw ddim cysgu. Roedd Dids yn dal ati i ddweud jôcs ac i wneud synau hurt.

O'r diwedd daeth Mr Elis yno. Roedd o'n flin efo Dids. "Gyrra i di i'r gwely am chwech o'r gloch fory, os clywa i ragor o sŵn."



Drannoeth, gwnaeth y plant astudiaeth o'r traeth. Roedd rhai plant yn gweithio efo Mr Elis. Marcion nhw sgwariau ar y traeth ac edrych ar bopeth ym mhob sgwâr.

Cafodd Cad hyd i gragen â chranc ynddi. "Cranc meudwy maen nhw'n ei alw," meddai hi.





Roedd rhai plant yn gweithio efo Mrs Jones. Syllon nhw ym mhob pwll dŵr rhwng y creigiau.

Daliodd Nadim a Wilff granc mawr. "Edrychwch ar hwn!" galwodd y ddau.

Dangosodd Mrs Jones iddyn nhw sut i gydio ynddo. "Edrychwn ni arno a gadael iddo fynd," meddai hi.




Cafodd Dids ac Anneena hyd i wylan. Fedrai hi ddim hedfan.

"O! Druan â hi!" meddai Mr Elis. "Fedr hi ddim hedfan am fod olew ar ei phlu. Mae'n anodd tynnu olew. Gwyliwch rhag cael olew ar eich dillad."

"Beth am yr wylan?" gofynnodd Dids.






Aeth Mr Elis â'r plant i weld Mrs Pennant.

"Bydd Mrs Pennant yn gwybod beth i'w wneud," meddai Mr Elis.

"Mae'r wylan yma angen ei glanhau," meddai Mrs Pennant. Edrychodd ar Dids ac Anneena. "A chi'ch dau hefyd," meddai hi.



"Sglyfaeth o beth ydi olew," meddai Mrs Pennant. "Gallwch weld beth mae o'n ei wneud i greaduriaid os ydi o'n cael ei golli i'r môr."

"Mae o'n ddychrynllyd," meddai Mrs Jones. "Rydw i'n cael trafferth i'w dynnu oddi ar Dids ac Anneena."


"Mae gen i biti dros yr wylan," meddai Dids.






"Beth fydd yn digwydd i'r wylan?" holodd Wilff.

"Bydd ei phlu wedi eu niweidio," meddai Mrs Pennant. "Glanhawn ni'r olew ymaith. Yna edrychwn ar ei hôl am wythnos neu ddwy. Rhaid iddi gryfhau drachefn, a rhaid i'r plu wella. Yna gollyngwn ni hi'n rhydd."



Roedd Mrs Pennant yn gofalu am bob math o anifeiliaid. Dangosodd ddyfrgi i'r plant. Yna rhoddodd bysgod iddo.


"Dyfrgi môr ydi o," meddai hi. "Deio rydw i'n ei alw. Cafodd o'i frifo gan gwch. Mae o'n well erbyn hyn, ac rydw i'n mynd i adael iddo fynd."






"Ar yr Ynys Fach Werdd mae'r dyfrgwn yn byw," meddai Mrs Pennant. "Cewch ddod efo fi i'r ynys a gwylio Deio yn cael ei ryddhau."

Roedd gan Mrs Pennant gwch. "Mae digon o le i bawb," meddai. "Os byddwn ni'n lwcus, efallai y gwelwn ni fwy o ddyfrgwn môr."




Croesodd y plant i'r Ynys Fach Werdd yn y cwch. Stopiodd Mrs Pennant dafliad carreg o'r ynys.

Craffodd y plant yn ofalus. Yn sydyn pwyntiodd Anneena at greigiau. "Mae dyfrgi arall yn fan'cw," meddai. "Edrychwch, bawb."



"Does dim llawer o ddyfrgwn môr ar ôl!" meddai Mrs Jones. "Felly roedd gweld hwnna'n fraint fawr."

Gollyngodd Mrs Pennant Deio. Deifiodd y dyfrgi i'r môr a nofio tuag at y creigiau.

"Fydd Deio'n iawn?" gofynnodd Wilff.


"Bydd, gobeithio," meddai Mrs Pennant.




Aeth Mrs Pennant â'r cwch i ochr arall yr ynys. "Cewch fynd allan i chwilota," meddai hi. "Os ewch chi'n dawel fach, gwelwch bob math o adar môr diddorol."

Neidiodd y plant allan o'r cwch a mynd o amgylch yr ynys i edrych be welen nhw.






Gwelodd y plant ogof fechan. Rhedon nhw ati.

"Oes trysor ynddi, tybed?" galwodd Wilff.

"Efallai mai twnnel cudd ydi o," meddai Nadim, "yn arwain at ganolfan gyfrifiadurol gudd."

Ond pan gyrhaeddon nhw'r ogof, cawson nhw hyd i rywbeth arall. Yn yr ogof roedd drymiau.



“Sobor o beth,” meddai Mrs Pennant.
“Mae rhywun wedi gadael y drymiau yma ar yr Ynys Fach Werdd. Maen nhw’n llawn gwastraff gwenwynig.”

“Cadwch draw, bawb,” meddai Mr Elis.

“Pam fyddai rhywun eisio eu gadael nhw yma?” gofynnodd Cad.







“Mae’n anodd cael gwared â gwastraff gwenwynig,” meddai Mrs Jones. “Mae’n ddrud i wneud hynny’n ddiogel. Felly mae pobl yn ei adael.”

“Dylen ni roi gwybod i’r heddlu,” meddai Mr Elis.

“Chaiff y drymiau ddim aros yma,” meddai Mrs Pennant, “i wneud niwed i’r bywyd gwyllt.”



Yn sydyn, rhedodd Dids a Wilff at Mr Elis.

"Mae cwch yn dod at yr ynys," meddai Dids. "Mae pedwar o bobl ynddo!"

"Mae'n swnio'n amheus i mi," meddai Mr Elis.


"Cuddiwch, bawb!" meddai Mrs Pennant. "Rydw i eisio gweld be mae'r bobl yma'n ei wneud."






Stopiodd y cwch a daeth pedwar o bobl allan. Codon nhw ddrymiau o'r cwch a dechrau eu cario tua'r ogof.

"Maen nhw'n gadael mwy o wastraff ar yr ynys," meddai Mrs Pennant. "Gwrandewch! Rhedwch yn ôl at fy nghwch i'n ddistaw bach! Mae gen i syniad!"




Gwnaeth y plant fel roedd Mrs Pennant yn ei ddweud. Rhedodd pawb at y cwch efo Mrs Jones a neidio i mewn.

"Gobeithio y bydd y cwch yn cychwyn," meddai Mrs Jones. "Os na wnaiff o, wn i ddim be wnawn ni."


"Ydi'r bobl yna'n beryglus?" gofynnodd Dids.



Gwthiodd Wilff a Dids y cwch allan â'r rhwyfau a thaniodd Mrs Jones yr injan.

"Iawn hyd yn hyn," meddai Mrs Jones. "Gobeithio y bydd syniad Mrs Pennant yn gweithio."

"Gobeithio y bydd Mrs Pennant a Mr Elis yn iawn," meddai Wilff.



Gweithiodd syniad Mrs Pennant. Roedd hi a Mr Elis wedi cymryd y cwch arall. Fedrai'r bobl eraill ddim gadael yr ynys hebddo.

"Hwrê!" gwaeddodd y plant. "Lwyddan nhw ddim i adael yr Ynys Fach Werdd os na nofian nhw'r holl ffordd yn ôl!"



"Be rydych chi'n ei wneud efo'n cwch ni?" gwaeddodd dyn. "Dowch ag o'n ôl!"

"Caiff yr heddlu ddod ag o'n ôl," gwaeddodd Mrs Pennant. "Cewch chi egluro pam 'dach chi wedi gadael gwastraff gwenwynig ar yr Ynys Fach Werdd."

"Grrr!" meddai'r dyn.




Aeth yr heddlu â'r bobl oddi ar yr ynys.

"Roedd mynd â'u cwch nhw'n syniad gwych," meddai Mr Elis.


"Rydw i'n falch inni eu dal," meddai Mrs Pennant. "A rydw i'n falch eich bod chi efo fi. Fedrwn i ddim bod wedi cymryd eu cwch nhw ar fy mhen fy hun."



"Am antur!" meddai Mrs Jones.

"Edrychwch ar y drymiau yna o wastraff gwenwynig," meddai Wilff. "Pam mae pobl yn eu gadael nhw ble gallen nhw wneud cymaint o niwed?"

"Bydd y dyfrgwn yn ddiogel rŵan ar yr ynys," meddai Anneena.




Cawson nhw barti ar ddiwedd yr wythnos. Chwaraeodd Mrs Jones ei gitâr a chanodd pawb.

Daeth Mrs Pennant. Dywedodd hi hanes rhai o'r anifeiliaid y bu hi'n gofalu amdanyn nhw.

"Ond chi sydd â'r stori orau," meddai hi. "Nid pob trip ysgol sy'n dod yn enwog!"



Daeth ffotograffydd. Gwnaeth hi i bawb sefyll mewn grŵp. Yna tynnodd lun.

"Rydan ni'n mynd i fod yn y papur newydd," meddai Wilff. "Mi fyddwn ni'n enwog."

"Dydw i ddim wedi bod yn enwog o'r blaen," meddai Dids. "Sut deimlad ydi o tybed?"




Drannoeth roedd hanes yr Ynys Fach Werdd yn y papur newydd. Roedd y plant yn berwi o gyffro.

“Rydw i’n mynd i brynu tri chopi,” meddai Dids, “i mi, i Mam a Dad, ac i Nain.”

“Er ’mod i’n enwog, dydw i ddim yn teimlo’n wahanol,” meddai Wilff.

Argraffwyd yng Nghymru

# Yr Ynys Fach Werdd

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 9



Pïod

Stori gan
**Roderick Hunt**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan
**Emily Huws**

**Pïod Cam 8**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Yr Herwgipwyr
Antur Lychlynnaidd
Y Peiriant Enfysau
Y Carped Hud
Diwrnod yn Llundain
Antur Fictoraidd

**Pïod Cam 9**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Yr Ynys Fach Werdd
Castell y Ddrycin
Supermwls
Y Frenhines Sbwriel
Chwilio
Cadw'n Fyw

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1993
ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-322-9

ISBN 0 86 174322 9

DRAKE

9 790861 743222